**Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**
—
**Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddHinsawdd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddHinsawdd
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddClimate@senedd.wales
senedd.wales/SeneddClimate
0300 200 6565

Dr David Clubb
Cadeirydd, Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru

26 Chwefror 2026

Annwyl David,

**Craffu blynyddol ar waith Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru**

Ar ran y Pwyllgor, hoffwn ddiolch i chi, Dr. Jenifer Baxter a Helen Armstrong am ddod i gyfarfod y Pwyllgor ar 21 Ionawr, i roi tystiolaeth ar adroddiad blynyddol diweddaraf Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru (y Comisiwn Seilwaith) a'i waith parhaus.

Er y byddai'r Pwyllgor fel arfer yn cyhoeddi adroddiad ar ôl sesiynau craffu blynyddol, gan fod amser yn brin tan y diddymiad, cytunodd yr Aelodau y byddai'n fwy priodol rhoi sylw i faterion a godwyd yn ystod y sesiwn mewn gohebiaeth. Mae'r rhain wedi'u nodi yn yr atodiad.

Hoffem ddiolch i'r holl Gomisiynwyr a'r ysgrifenyddiaeth am y ffordd adeiladol y maent wedi ymgysylltu â'r Pwyllgor drwy gydol y Chweched Senedd. Rydym yn gobeithio y bydd y lefel hon o ymgysylltu yn parhau rhwng y Pwyllgor olynol a'r Comisiwn Seilwaith yn ystod y Seithfed Senedd. Rydym hefyd yn nodi eich bwriad i roi'r gorau i'ch rôl fel Cadeirydd yn nhymor yr haf, a hoffem ddiolch i chi am eich cyfraniad fel Cadeirydd y sefydliad. Dymunwn bob llwyddiant i chi yn y dyfodol.

Mae copi o'r llythyr hwn wedi'i anfon at Huw Irranca-Davies AS, Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, ac at Rebecca Evans AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio, a fydd yn ymddangos gerbron y Pwyllgor ar gyfer ei sesiwn graffu gyffredinol olaf ar 5 Mawrth 2026.

Byddai'n ddefnyddiol pe gallech ddarparu ymateb erbyn dydd Gwener 13 Mawrth.

Yn gywir,

Llyr Gruffydd AS
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg | We welcome correspondence in Welsh or English.

**Atodiad: Craffu blynyddol ar waith Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru**

## Adolygiad Llywodraeth Cymru o Gomisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru

Rydym yn croesawu'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch y cynnydd sydd wedi'i wneud tuag at weithredu'r argymhellion sy'n deillio o adolygiad Llywodraeth Cymru o'r Comisiwn Seilwaith. O ran metrigau perfformiad, gwnaethoch nodi eich bod wrthi'n datblygu cyfres o ddangosyddion perfformiad allweddol.

Rydym yn awyddus i sicrhau bod dangosyddion perfformiad allweddol ar waith ar gyfer unrhyw sefydliad sy'n olynu'r Comisiwn Seilwaith, a hynny er mwyn cynorthwyo'r broses o fonitro ei effaith a gwella'r broses o adrodd ar ei berfformiad drwy gydol ei oes.

## Rôl Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru a'i berthynas â Llywodraeth Cymru

Rydym yn croesawu eich ymagwedd agored wrth drafod yr heriau y mae'r Comisiwn Seilwaith wedi'u hwynebu wrth gyfathrebu ac ymgysylltu â Llywodraeth Cymru. Mae'r Pwyllgor yn parhau i bryderu am sut y mae Llywodraeth Cymru yn ymateb i waith y Comisiwn Seilwaith a'r diffyg ymgysylltiad cyson, strwythuredig rhwng y Comisiwn a Llywodraeth Cymru.

Roeddem yn siomedig o glywed bod y Comisiynwyr yn aml yn clywed am ddatblygiadau sy'n gysylltiedig ag argymhellion y Comisiwn ei hun drwy ddulliau anuniongyrchol neu anffurfiol – gan gynnwys y cyfryngau cymdeithasol.

Rydym yn disgwyl i Lywodraeth Cymru weithio gyda'r Comisiwn Seilwaith, gyda chefnogaeth gan yr ysgrifenyddiaeth a ddarperir gan Lywodraeth Cymru, i roi trefniadau priodol ar waith, gyda'r nod o sicrhau bod y Comisiwn yn cael gwybod yn rheolaidd am ddatblygiadau sy'n berthnasol i'w argymhellion a'i feysydd gwaith parhaus.

## Dylanwad ac effaith

Gwnaethom archwilio pa mor effeithiol yw gwaith Llywodraeth Cymru o ran ymdrin ag argymhellion y Comisiwn Seilwaith ac yn ymateb iddynt. Gwnaethoch ddweud wrthym fod yr ymatebion wedi bod yn arwynebol, gan nodi ei bod, ar adegau, wedi bod yn anodd penderfynu a yw Llywodraeth Cymru wedi derbyn neu wrthod argymhellion y Comisiwn. Rydym yn pryderu bod y diffyg eglurder hwn yn ei gwneud hi'n fwy anodd i'r Comisiwn asesu effaith ei waith ac i gynllunio gweithgarwch at y dyfodol mewn modd effeithiol.

Roeddem hefyd yn pryderu i glywed bod cyfyngiadau ar gapasiti technegol Llywodraeth Cymru, o bosibl, yn arwain at gamddeall argymhellion technegol neu ymdrin â'r argymhellion hynny mewn modd arwynebol yn unig. Nodwn fod eich tystiolaeth yn dweud bod hyn yn cyfrannu at y diffyg cysylltiad rhwng yr hyn y mae'r Comisiwn Seilwaith yn ei glywed gan grwpiau cynghori proffesiynol a chanfyddiadau Llywodraeth Cymru o ran yr hyn sy'n digwydd ar lawr gwlad.

Rydym yn ymwybodol bod disgwyl i Lywodraeth Cymru ymateb i adroddiad y Comisiwn Seilwaith ar addasu i'r hinsawdd cyn diwedd y Chweched Senedd. Rydym yn disgwyl i Lywodraeth Cymru ddarparu ymateb ystyrlon ac o sylwedd i'r adroddiad hwnnw. Wrth wneud hynny, dylai nodi'n glir a yw wedi derbyn neu wedi gwrthod argymhellion y Comisiwn Seilwaith a darparu rhesymeg fanwl dros ei benderfyniad. Fel y gwyddoch, rydym wedi codi mater ymatebolrwydd Llywodraeth Cymru ichi yn ein hadroddiadau blaenorol ac rydym yn bwriadu codi'r mater hwn ymhellach gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio pan fydd hi'n ymddangos ger ein bron yn ddiweddarach yn nhymor y gwanwyn.

Rydym yn croesawu effaith gadarnhaol gwaith y Comisiwn Seilwaith o ran ymgysylltu â chymunedau ledled Cymru, yn enwedig yng Nghrucywel a Grangetown, a'i ymdrechion i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd ynghylch newid hinsawdd a seilwaith.

## Adroddiad Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru ar addasu i'r hinsawdd

Rydym yn croesawu'r cam o gyhoeddi adroddiad y Comisiwn Seilwaith ar addasu i'r hinsawdd.

Gwnaethoch ddweud wrthym nad yw addasu i'r hinsawdd wedi cael "ystyriaeth gyfartal" â lliniaru hinsawdd gan Lywodraeth Cymru o ran buddsoddi, polisi a gwaith cynllunio. Mae'r Pwyllgor yn rhannu barn y Comisiwn Seilwaith, a gwnaethom holi Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig am y mater hwn pan ymddangosodd ger ein bron ar 11 Chwefror 2026. Cydnabu'r Ysgrifennydd Cabinet fod lliniaru newid hinsawdd wedi bod yn destun mwy o sylw nag addasu, ond nododd nad oedd y sefyllfa hon yn unigryw i Gymru. Dywedodd hefyd fod y sefyllfa yn newid, gan dynnu sylw at yr angen i Lywodraeth Cymru fwrw ymlaen â'i strategaeth addasu i'r hinsawdd 2024. Rydym yn disgwyl y bydd ein pwyllgor olynol yn dymuno craffu ar gynnydd Llywodraeth Cymru o ran addasu i'r hinsawdd yn ystod y Seithfed Senedd.

Roeddem yn falch o glywed eich bod wedi rhannu canfyddiadau eich adroddiad ar addasu i'r hinsawdd gydag Is-bwyllgor Addasu Pwyllgor Newid Hinsawdd y DU. Gwnaethoch ddweud wrthym eich bod yn disgwyl i'r canfyddiadau gael eu hadlewyrchu yn asesiad risg newid hinsawdd Pwyllgor Newid Hinsawdd y DU, a ddisgwylir ym mis Mai 2026. Byddem yn awyddus i glywed sut rydych yn bwriadu asesu i ba raddau y mae eich canfyddiadau wedi dylanwadu ar yr asesiad risg hwnnw.

## Dyfodol Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru

Gwnaethom ystyried rôl a safle'r Comisiwn Seilwaith yn y dyfodol. Gwnaethoch ddweud wrthym fod y Comisiwn wedi perfformio'n well na'r disgwyl, er gwaethaf y cyfyngiadau ar ei adnoddau, a'i fod wedi creu fframwaith gwych ar gyfer y comisiwn nesaf. Gwnaethoch ychwanegu:

*"We will be pushing the new Welsh Government to invest further in this commission, because I think that we've demonstrated a big impact, and we can do more with a bit more resource."*

Rydym yn cydnabod mai mater i Lywodraeth nesaf Cymru fydd y penderfyniadau ynghylch dyfodol y Comisiwn Seilwaith. Rydym yn croesawu eich papur ynghylch esblygiad y Comisiwn Seilwaith, ac

rydym yn disgwyl i Lywodraeth nesaf Cymru roi ystyriaeth ofalus i'r papur hwnnw wrth wneud unrhyw benderfyniad.

Rydym yn disgwyl i Lywodraeth nesaf Cymru wneud penderfyniad ynghylch statws hirdymor Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru yn gynnar yn y Seithfed Senedd, gan sicrhau bod unrhyw Gomisiwn Seilwaith yn y dyfodol yn cael digon o adnoddau.